

23. Arolygu

Yn y bennod hon rhoddir sylw i:

- Amcanion y broses arolygu ysgolion
- O dan ba amgylchiadau y gall ysgol gael ei harolygu; a'r
- gweithdrefnau y disgwylir i'r pennaeth a'r corff llywodraethu eu dilyn cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad.

Cefndir

1. Bwriad arolygiad yw helpu ysgolion i wella drwy dynnu sylw at eu cryfderau a'u gwendidau, gan ddarparu argymhellion iddynt ar sut i wella, a hyrwyddo diwylliant cadarn a myfyriol o hunanwerthuso a gwella. Mae cyhoeddi adroddiadau arolygu hefyd yn rhoi gwybodaeth i rieni a'r gymuned ehangach am ansawdd yr addysg ac a yw disgyblion yn cyflawni cymaint ag y gallant.

2. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gweithredu'n annibynnol ond caiff ei ariannu gan Weinidogion Cymru o dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

3. Deddf Addysg 2005 a rheoliadau cysylltiedig sy'n llywodraethu arolygiadau ysgolion. Rhaid i arolygiadau gael eu cynnal gan dimau o arolygwyr a arweinir gan arolygydd cofrestredig neu Arolygydd ei Fawrhydi (AEF), neu arolygydd ychwanegol a rhaid cynhyrchu arolygiad ysgrifenedig ar y diwedd. Yn ôl Adran 28(5) o Ddeddf Addysg 2005, rhaid i arolygwyr cofrestredig adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol,
- i ba raddau y mae'r addysg a ddarperir yn yr ysgol yn diwallu anghenion yr amrywiaeth o ddisgyblion yn yr ysgol,
- y safonau addysgol a gyflawnir gan yr ysgol,
- ansawdd arweiniad a rheolaeth yr ysgol, gan gynnwys a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu rheoli'n effeithiol,
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yr ysgol; a
- chyfraniad yr ysgol at les y disgyblion hynny.
- datblygiad disgyblion yr ysgol o ran pedwar diben cwricwlwm (gweler Pennod 11 y Llawlyfr).

Mae dyletswydd hefyd ar y Prif Arolygydd i roi gwybod i'r Senedd am gamau sy'n cael eu cymryd mewn ysgolion a gynhelir i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac fe'i cynhwysir yn fframwaith arolygu Estyn.

4. Mae gan rai ysgolion gymeriad crefyddol ac maent yn addysgu addysg grefyddol enwadol. Yn yr ysgolion hyn, cynhelir arolygiad ar wahân ar gyfer addysg grefyddol a chynnwys addoli ar y cyd o dan adran 50 o Ddeddf Addysg 2005 ac ni chaiff y rhain eu cynnwys mewn arolygiadau adran 28.

5. Cynhelir arolygiadau ar gyfer y categorïau canlynol o ysgolion o dan adran 28 o Ddeddf Addysg 2005:

- Ysgolion cymunedol
- Ysgolion sefydledig
- Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr
- Ysgolion gwirfoddol a reolir
- Ysgolion meithrin a gynhelir
- Ysgolion arbennig
- Unedau cyfeirio disgyblion.

Darpariaeth blynyddoedd cynnar

6. Gall ysgolion gynnwys amrywiaeth o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, Dechrau'n Deg neu'r ddarpariaeth gofal plant. Gall darpariaeth o'r fath fod ar gyfer plant dan dair oed neu ar gyfer plant tair a phedair oed. Dim ond os yw'r ddarpariaeth gofal plant hefyd yn Ddarparwr Addysg Gofrestredig gyda'r awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin berthnasol y dylai timau arolygu'r ddarpariaeth hon.

7. Os oes darpariaeth blynyddoedd cynnar nad yw'n rhan o'r ysgol (h.y. nid yw'r plant ar gofrestr yr ysgol), rhaid i arolygwyr wirio bod y ddarpariaeth wedi ei chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r awdurdod lleol fel y bo'n briodol. Mae hwn yn fater diogelu pwysig a dylai arolygwyr godi'r mater hwn gyda'r ysgol os nad yw wedi cymryd y camau priodol.

Y sector ôl-16

8. Yn y sector ôl-16, yn ôl Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, rhaid i Brif Arolygydd Cymru adrodd ar:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir
- y safonau a gyrhaeddir gan y rhai sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant
- a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r sawl sy'n darparu addysg neu hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn cael eu defnyddio i roi gwerth am arian.

Y gyfundrefn arolygu ysgolion

9. Dechreuodd y gyfundrefn bresennol o arolygu allanol cyson ym 1993. Roedd pob ysgol uwchradd wedi'u harolygu erbyn mis Awst 1998 a phob ysgol gynradd ac arbennig erbyn mis Awst 1999.

10. Dechreuodd y cylch arolygu diweddaraf o ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd ym mis Medi 2016. Ers mis Medi 2016, mae darparwyr addysg a hyfforddiant i gael eu harolygu o leiaf unwaith o fewn cyfnod o wyth mlynedd (rhwng

Medi 2016 ac Awst 2024), ac wedi hynny o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod dilynol o 6 mlynedd. Nid yw dyddiad yr arolygiad nesaf yn gysylltiedig â dyddiad eu harolygiad blaenorol. Felly, gall darparwr fod â llai neu fwy nag 8 mlynedd rhwng pob arolygiad.

11. Mae gan Estyn y pŵer i wneud ymweliad dirybudd ag unrhyw ddarparwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru os oes ganddo bryderon.

12. Mae Estyn yn monitro sampl o'r holl arolygiadau. Mae'n sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu ac yn darparu adborth i'r arolygwyr ynglŷn ag ansawdd eu gwaith. Os na fydd arolygwyr yn bodloni safon ansawdd Estyn mae'n bosibl y bydd yn ofynnol iddynt gyflawni hyfforddiant pellach ac mewn achosion difrifol gallant gael eu tynnu oddi ar y gofrestr.

Y fframwaith arolygu

13. Mae Estyn wedi cyhoeddi a chyflwyno fframwaith arolygu ar ei newydd wedd o fis Medi 2022. Mae'r arolygiadau yn seiliedig ar bum maes arolygu: Dysgu; Lles ac agweddau at ddysgu; Profiadau addysgu a dysgu; Gofal, cymorth ac arweiniad; ac Arweinyddiaeth a rheolaeth.

Yr Ystafell Arolygu Rithwir

14. Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig ar gyfer rheoli sawl agwedd o'r arolygiad. Enw'r system hon yw'r ystafell arolygu rithwir. System ar y we yw hi sy'n caniatáu i ysgolion lanlwytho gwybodaeth i'r arolygiaeth ac i lawrlwytho canllawiau gan yr arolygiaeth ynghylch y broses arolygu. Yr ystafell arolygu rithwir hefyd yw'r lle y gall ysgolion gael mynediad at ganllawiau'r enwebai ar baratoi ar gyfer yr arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygu. Aelod uwch o'r staff yw'r enwebai a ddewiswyd gan yr ysgol i weithio gyda'r tîm arolygu.

15. Mae set gynhwysfawr o ddogfennau canllaw a fideos ar gael ar wefan Estyn i helpu ysgolion i ddeall ac i ddefnyddio'r system.

Y tîm arolygu

16. Bydd cyfansoddiad y tîm arolygu'n dibynnu ar fath, ystod oed, natur ieithyddol a nifer y disgyblion ar y gofrestr.

17. Mae Arolygwyr Ei Fawrhydi yn aelodau parhaol o staff sy'n arwain ac yn cynnal gwaith arolygu gan ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant. Gall arolygwyr cofrestredig ac arolygwyr ychwanegol hefyd weithredu fel arolygwyr adrodd ar arolygiadau, gan chwarae'r un rôl ag Arolygwyr Ei Fawrhydi yn ymarferol. Mae arolygwyr cofrestredig yn tendro am waith arolygu ac yn ymrwymo i gontract gydag Estyn ar gyfer pob swydd arolygu a ddyfernir iddynt.

18. Bydd holl aelodau'r tîm arolygu wedi cwblhau trefniadau hyfforddi a dethol Estyn yn llwyddiannus. Mae Estyn yn recriwtio, hyfforddi ac yn cynnal rhestr o Arolygwyr Cofrestredig cymeradwy. Mae rôl Arolygwyr Cofrestredig wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ar gyfer arolygu ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol. Gall arolygwyr tîm ac

arolygwyr cymheiriaid ymgeisio i ddod yn Arolygwyr Cofrestredig os ydynt yn bodloni'r meini prawf dethol. Yn yr achosion hyn, rhaid iddynt ymgymryd yn llwyddiannus â hyfforddiant ac asesu pellach er mwyn dod yn Arolygydd Cofrestredig. Mae pob arolygydd yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion diweddaraf ym maes arolygu.

19. Bydd timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd adrodd (AEF, arolygydd ychwanegol neu Arolygydd Cofrestredig) gydag aelodau eraill y tîm yn cael eu tynnu o blith AEF neu arolygwyr ychwanegol. Bydd gan bob tîm hefyd arolygydd cymheiriaid (uwch aelod staff o ysgol arall) ac arolygydd lleeg.

20. Yr arolygydd adrodd sy'n rheoli'r tîm arolygu a'r broses arolygu gyfan, a dyma'r man cyfeirio cyntaf i bawb sy'n rhan o'r arolygiad.

21. Bydd ysgolion yn cael eu gwahodd i ddewis aelod staff uwch, a elwir yn enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Bydd swydd yr enwebai'n ddigon uchel i weithredu fel cyswllt rhwng yr ysgol a'r tîm arolygu ond nid oes angen i'r enwebai fod yn bennaeth yr ysgol.

22. Er mwyn gweithredu fel enwebai mewn arolygiad, rhaid bod yr aelod staff wedi bod ar gwrs hyfforddi ar-lein Estyn cyn yr arolygiad. Os yw'r ysgol yn penderfynu peidio â defnyddio enwebai, ni fydd yn tanseilio'r arolygiad. Nid yw'r ffaith nad oes enwebai gan yr ysgol yn effeithio ar ddyfarniadau'r tîm arolygu.

23. Cytunir ar union swyddogaeth yr enwebai gyda'r Arolygydd Cofrestredig cyn pob arolygiad a chadarnheir hynny mewn datganiad o gytundeb. Gall yr enwebai gyfrannu at weithgareddau arolygu amrywiol, gan gynnwys arsylwi ar wersi a mynychu cyfarfodydd tîm, ond ni chaiff chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gytuno ar ddyfarniadau corfforaethol.

24. Yr arolygydd cymheiriaid sy'n cyflwyno safbwynt ymarferwyr presennol i'r arolygiad. Caiff pob arolygydd cymheiriaid ei enwebu gan yr ysgol lle mae'n gweithio ac maent wedi cael eu hyfforddi gan Estyn. Disgwylir i'r arolygydd cymheiriaid gyfrannu'n llawn at yr arolygiad a'r dyfarniadau corfforaethol.

Hunanwerthuso

25. Bydd gwaith hunanwerthuso ysgolion a'u cynlluniau datblygu yn fan cychwyn ar gyfer eu harolygu. Nod yr arolygiad a'r hunanwerthusiad yw darparu asesiad cywir o ansawdd a safonau; gan nodi cryfderau a meysydd â lle i wella a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn eu gwella. Gellir cyflwyno canfyddiadau'r hunanwerthusiad i arolygwyr ar amrywiaeth o fformatau; dylai'r ffocws yn ystod arolygiad fod ar effeithiolrwydd ac effaith prosesau hunanwerthuso a gwella, nid ansawdd dogfennau.

26. O dan arweiniad dogfennau Estyn 'Beth rydym ni'n ei arolygu' a 'Sut rydym ni'n arolygu', bydd arolygwyr yn rhoi dilysrwydd canfyddiadau hunanwerthuso'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella dan brawf. Dylai dyfarniadau'r arolygwyr ar arwain a rheoli ystyried ansawdd a chywirdeb hunanwerthusiad yr ysgol ac effaith y gwaith gwella, gan gynnwys pa mor gywir yw adnabyddiaeth arweinwyr a rheolwyr o gryfderau a gwendidau'r ysgol.

Cyn arolygiad

27. O dan y trefniadau arolygu newydd, bydd ysgolion yn cael deng niwrnod gwaith o rybudd o'r arolygiad. Bydd y cydlynnydd arolygu a'r arolygydd adrodd yn cysylltu â'r ysgol i drafod y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y trafodaethau hyn, bydd yr arolygiaeth yn:

- esbonio pwrpas yr arolygiad a thrafod rhaglen amlinellol ar gyfer arolygu
- trafod yr wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad a gwneud y trefniadau ar gyfer ei dderbyn ar ffurf electronig drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir
- gofyn a oes unrhyw broblemau neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt a gofyn am sesiwn frifio iechyd a diogelwch cyffredinol i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad
- sefydlu a yw'r ysgol yn dymuno cael enwebai ac, os felly, cytuno ar rôl yr enwebai
- cytuno ar drefniadau i'r ysgol gynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr
- trefnu argaeledd tystiolaeth ategol, gan gynnwys samplau o waith disgyblion
- sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- trefnu i ddim mwy na thri aelod o'r corff llywodraethu gyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- trefnu unrhyw faterion domestig fel lleoliad i'r arolygwyr a lleoedd parcio
- Sefydlu'r trefniadau ar gyfer bwydo'r canlyniadau arolygu yn ôl
- Cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygu
- hysbysu'r ysgol y bydd elfennau allweddol y trefniadau yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

28. Bydd yr arolygiaeth yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol cyn gynted â phosibl:

- gwybodaeth gefndirol allweddol am yr ysgol
- copi o gynllun datblygu presennol yr ysgol
- manylion llawn am amserlenni'r ysgol a gweithgareddau eraill y bwriedir eu cynnal ar gyfer cyfnod yr arolygiad.

Mae arolygiadau'n cynnwys arsylwi addysgu, hyfforddiant, a gwaith gyda disgyblion. Ar sail yr wybodaeth a dderbynnir, bydd arolygwyr yn dewis sampl o sesiynau i'w harsylwi a'u gwerthuso.

Os yw'r arolygiad yn digwydd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, gall yr arolygiaeth ofyn am samplau o waith disgyblion o'r flwyddyn flaenorol.

29. Bydd yr arolygiaeth hefyd yn trefnu i gael briff am yr ysgol gan yr awdurdod lleol.
30. Bydd yr arolygiaeth yn gofyn i'r ysgol hysbysu partneriaid a rhanddeiliaid eraill am yr arolygiad, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cyfarfod cyn yr arolygiad gyda rhieni/gofalwyr.
31. Pan fydd ysgolion yn cael gwybod am arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gael gafael ar holiaduron ar-lein ar gyfer disgyblion a rhieni/gofalwyr a staff, a'r rhai sydd ar gael i'r corff llywodraethu ar gyfer ysgolion a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygu yn rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygu. Gofynnir i ysgolion annog pob disgybl i gwblhau'r arolwg.
32. Bydd yr arolygiaeth yn trefnu bod holiaduron am waith yr ysgol ar gael i bob gofalwr/rhiant cyn yr arolygiad.
33. Bydd yr arolygiaeth yn casglu, coladu a dadansoddi ymatebion dysgwyr a rhieni yn yr holiaduron ac yn cyflwyno'r canlyniadau mewn atodiad i'r adroddiad arolygu.

Rhaid i'r corff llywodraethu drefnu cyfarfod rhwng yr Arolygydd Cofrestredig a'r rhieni/gofalwyr sydd â phlant yn yr ysgol. Rhaid gwahodd yr holl rhieni/gofalwyr (gan gynnwys yr Awdurdod Lleol os oes plant 'sy'n derbyn gofal' ar gofrestr yr ysgol) i'r cyfarfod, gan gynnwys y rhai sy'n aelodau o staff neu gorff llywodraethu'r ysgol. Ni chaiff llywodraethwyr ac aelodau eraill o staff ddod i'r cyfarfod hwn.

Yn ystod arolygiad

Cyfarfod cychwynnol y tîm

41. Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylid cael sesiwn frifio ar iechyd a diogelwch gan yr ysgol. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod y strategaeth ar gyfer yr arolygiad.

Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

42. Bydd y tîm yn ystyried ystod eang o dystiolaeth. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- arsylwi sesiynau addysgu neu hyfforddi a gweithgareddau eraill
- samplau o waith disgyblion
- barn y disgyblion a'r rhanddeiliaid
- trafodaethau gyda staff, arweinwyr a rheolwyr, llywodraethwyr, rhieni ac eraill.
- Tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd disgyblion
- Briff gan yr awdurdod lleol

43. Bydd y tîm yn defnyddio arsylwi gwaith yn uniongyrchol lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth ar gyfer cefnogi barn. Mae'r tîm yn cynnal cymysgedd o arsylwadau gwersi cyfan a theithiau dysgu. Yn ystod taith ddysgu, bydd arolygwyr fel arfer yn treulio dim llai na 30 munud yn arsylwi ar weithgaredd dysgu.

44. Mae llais y dysgwyr yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol. Bydd trafodaethau'n rhoi cyfle i archwilio gwybodaeth disgyblion o'u gwaith a'u dealltwriaeth ohono, a pha mor dda y mae'r ysgol yn eu cefnogi ac yn cyfrannu at eu lles yn eu barn nhw.

45. Bydd arolygwyr yn gofyn am restrau o ddisgyblion o'r ysgol ac yna yn dewis y rhai y dymunant eu cyfweld. Gall y tîm arolygu ofyn am restrau ar sail gwahanol gategoriâu, er enghraifft, rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, siaradwyr Cymraeg, a rhai o gefndiroedd difreintiedig a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

46. Dylai ysgolion sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio cychwynnol, profion darllen ac asesiadau eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd disgyblion o'i gymharu â manau cychwyn.

47. Bydd angen i'r tîm ystyried barn rhanddeiliaid ar yr ysgol a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad er mwyn llywio'r dyfarniadau.

48. Os nad yw'r pennaeth yn gweithredu fel enwebai, mae'n bwysig fod yr arolygydd adrodd yn cynnal cyfarfod dyddiol byr gyda'r pennaeth i gytuno ar drefniadau newydd, trafod materion sy'n peri pryder, egluro materion arolygu, cael rhagor o wybodaeth a thrafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Cofnodi tystiolaeth arolygu

49. Bydd arolygwyr yn defnyddio ffurflenni barn i gofnodi eu canfyddiadau a'u dyfarniadau. Gall y rhain fod yn gysylltiedig ag arsylwi gweithgareddau dysgu, trafodaethau gyda disgyblion, cyfweiliadau â staff, cyfweiliadau ag arweinwyr a rheolwyr, craffu dogfennau, gwybodaeth am berfformiad a samplau o waith disgyblion.

Cyfarfodydd tîm

50. Prif bwrpas cyfarfodydd tîm yw cyrraedd barn gywir, gorfforaethol, sydd wedi'i phrofi'n drylwyr ar safonau, lles, ansawdd ac arweinyddiaeth.

Deialog broffesiynol

51. Ar ddiwedd arsylwad, dylai arolygwyr, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gael deialog broffesiynol fer gyda'r aelod o staff.

Adborth ffurfiol

52. Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad a gynhelir ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth ar lafar i arweinwyr a rheolwyr. Dylai cynrychiolydd o'r corff llywodraethol, ac aelod o'r awdurdod lleol neu gonsortwm rhanbarthol, gael gwahoddiad i'r cyfarfod

hwn. Dylai'r adborth gyfleu'r negeseuon allweddol ynglŷn â chryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella ac os caiff yr ysgol ei rhoi yn y categori dilynol, y rhesymau dros lefel y dilyniant.

53. Dylai'r arolygydd adrodd egluro i'r ysgol y gellir gofyn cwestiynau i gael eglurhad yn ystod y cyfarfod adborth, ond na chaniateir cwestiynu dyfarniadau'r tîm. Dylai fod cysondeb eang rhwng y gwerthusiadau sy'n cael eu bwydo'n ôl a'r hyn sy'n ymddangos yn yr adroddiad ysgrifenedig.

54. Mae'r holl ddyfarniadau sy'n cael eu hadrodd yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn ddarostyngedig i broses gymedroli a dilysu gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi. Maen nhw'n gyfrinachol i'r ysgol hyd nes y bydd yr adroddiad yn cael ei chyhoeddi.

Gweithgarwch dilynol

55. Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu, ynghyd â'r enwebai, yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol a bydd yn rhoi gwybod yn glir i arweinwyr a rheolwyr os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol yn ystod y cyfarfod adborth ffurfiol.

56. Lle mae'r arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rannu, bydd arolygwyr yn gwahodd y darparwr i ysgrifennu astudiaeth achos a fydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan Estyn.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig o ran safonau, ansawdd addysg a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, bydd y tîm yn nodi pa lefel o weithgarwch dilynol sydd fwyaf priodol.

57. Mae tair lefel o weithgarwch dilynol:

1. Mesurau arbennig
2. Gwelliant sylweddol
3. Adolygiad Estyn

58. Mae mesurau arbennig a gwelliant sylweddol yn gategoriâu statudol sy'n berthnasol i ysgolion sy'n achosi pryder fel y'u diffinnir gan adran 44 o Ddeddf Addysg 2005 ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael gwybod pan fydd ysgolion yn cael eu rhoi yn y categorïau hyn ac fe'u hysbysir, ar ôl arolygiadau monitro gan Estyn, am eu cynnydd o hynny ymlaen, yn ôl gofynion y ddeddfwriaeth.

59. Mae Adolygiad Estyn yn lefel anstatudol o ddilyniant i'r ysgolion hynny nad yw eu diffygion yn ddigon difrifol i fod angen categori statudol. Bydd Estyn, ar y cyd â'r awdurdod lleol, yn adolygu cynnydd yr ysgolion hyn tua 12 mis ar ôl yr arolygiad craidd.

Ar ôl yr Arolygiad

Adroddiad yr arolygiad

60. Mae'r arolygydd adrodd yn gyfrifol am greu adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i'r gynulleidfa leyg ac o gymorth i'r ysgol.
61. Bydd yr Arolygiaeth yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r ysgol er mwyn helpu i wirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Mae gan yr ysgol bum diwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft ac i nodi unrhyw wallau ffeithiol.
62. Bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog pan wneir cais i'r perwyl hwnnw, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Estyn.
63. Bydd yr adroddiad yn cael ei gynhyrchu o fewn amserlenni statudol neu amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer y sector; Ar hyn o bryd mae hyn o fewn 35 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cafodd yr arolygiad ei gwblhau.
64. Bydd yr adroddiad yn nodi a oes gofyn am unrhyw weithgaredd arolygu dilynol yn yr ysgol.
65. Pan fydd yn cael yr adroddiad a'r crynodeb, rhaid i'r corff llywodraethu:
- drefnu i anfon copi o'r crynodeb at rieni pob disgybl cyn pen deg diwrnod gwaith.
 - trefnu bod yr adroddiad llawn a'r crynodeb ar gael i'w harchwilio, ym mha le ac ar ba adeg sy'n bosibl, gan unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno eu gweld; a
 - darparu copïau o'r adroddiad llawn a'r crynodeb i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt.

Sicrhau ansawdd arolygiadau

66. Fel rhan o'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd, mae'r Arolygiaeth yn gwahodd ysgolion i gwblhau holiadur ôl-arolygu. Bydd yr holiadur ar gael i ysgolion yn yr Ystafell Arolygu Rithwir. Dylai ysgolion gwblhau rhan gyntaf yr holiadur yn syth wedi'r arolygiad ar y safle a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr Ystafell Arolygu Rithwir. Gall ysgolion gwblhau ail ran yr holiadur ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, eto drwy system yr Ystafell Arolygu Rithwir.
67. Dylai ysgolion godi unrhyw bryderon am y modd y cynhelir arolygiad gyda'r arolygydd adrodd yn ystod yr arolygiad. Dylid trafod unrhyw wrthwynebiad i ganfyddiadau'r arolygu gyda'r arolygydd adrodd hefyd wrth iddyn nhw godi yn ystod yr arolygiad. Bydd gwaith sicrhau ansawdd yr arolygiad bob amser yn cael ei wneud gan yr arolygydd adrodd yn gyntaf.

68. Mae trefniadau Estyn ar gyfer ymdrin â chwynion wedi'u nodi yn ein Gweithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion, sydd ar gael ar wefan yr Arolygiaeth [Gweithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion \(llyw.cymru\)](#)

Y Cynllun Gweithredu

69. Rhaid i'r corff llywodraethu lunio cynllun gweithredu (gellir cyfeirio at hwn fel y Cynllun Datblygu'r Ysgol neu Gynllun Gwella'r Ysgol hefyd) cyn pen 20 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad arolygu. Nid yw "diwrnodau gwaith" yn cynnwys penwythnosau na gwyliau banc na gwyliau sy'n hwy nag wythnos ond maent yn cynnwys toriadau hanner tymor o wythnos neu lai. Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi'n fanwl y camau sydd i'w cymryd ar gyfer pob argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad, ynghyd â dyddiad ar gyfer eu cwblhau.

Ysgolion mewn mesurau arbennig ac ymsefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso

70. Yn gyffredinol, ni all ymsefydlu ddigwydd mewn ysgol sydd angen mesurau arbennig yn ôl dyfarniad Estyn. Mae dau esemptiad posibl i'r gofyniad hwn:

- dechreuodd y person dan sylw ei gyfnod sefydlu, neu fe'i cyflogwyd fel athro graddedig neu athro cofrestredig ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, yn yr ysgol ar adeg pan nad oedd amgylchiadau o'r fath yn berthnasol
- mae un o Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi ardystio'n ysgrifenedig ei fod yn fodlon bod yr ysgol yn addas at ddiben darparu goruchwyliaeth a hyfforddiant ymsefydlu.

Yn gryno:

Rhaid i'r corff llywodraethu wneud y canlynol:

- hysbysu'r rhieni a phobl eraill am yr arolygiad
- trefnu, yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig â chymeriad crefyddol, arolygiad ar wahân o addoli ar y cyd ac unrhyw addysg enwadol, o dan adran 50 o Ddeddf Addysg 2005.
- trefnu cyfarfod rhwng yr Arolygydd Cofrestredig a'r rhieni
- cyfarfod yr Arolygydd Cofrestredig a chadeirydd y llywodraethwyr er mwyn trafod gwaith llywodraethwyr
- cymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr cofrestredig i ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, yn cael copi o grynodedb o'r adroddiad arolygu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael yr adroddiad

- llunio cynllun gweithredu yn nodi'r camau gweithredu dilynol ac anfon gwybodaeth am y camau gweithredu arfaethedig at y rhieni
- cynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad blynyddol i'r rhieni ynghylch ei gynllun(iau) gweithredu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Y Gyfraith

Deddf Addysg 2005

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Rhan V ac Atodlen 26

Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 (OS 2006/1714) fel y'u diwygiwyd

Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae gwaith arolygu hefyd yn cymryd i ystyriaeth y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Estyn a darparwyr addysg eu hunain, gan gynnwys, er enghraifft, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Canllawiau

Ysgolion sy'n achosi pryder – canllawiau statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol (cyhoeddwyd mis Medi 2017)

Sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru (wedi'u hadolygu mis Gorffennaf 2017)

[Sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru](#) 2017

Cyhoeddiadau Estyn

[ar wefan Estyn yn https://www.estyn.llyw.cymru/?_ga=2.253925259.2033401933.1678807526-1698197208.1678711149

Canllawiau ynghylch ysgolion mewn mesurau arbennig a'r cyfnod sefydlu ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso